# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 254 Pris £1 Mis Mai 2023



Y Galeri

Urdd

Neges Heddwch ac Ewyllys Da
Peace and Goodwill Message

**Gwrth-hiliaeth**
**Anti-racism**

# GALW. NHW. ALLAN.

Rhanna. Cefnoga. Gweithreda.

# CALL. THEM. OUT.

Share. Support. Take action.



## Galw. Nhw. Allan.

Agor dy lygaid
Mae'n bryd torri lawr hiliaeth systemig,
a sylweddoli
bod hiliaeth yn dal i fodoli.

Casineb o gwmpas y ffordd da ni'n edrych
a dim digon o barch i'n gwahaniaethau a'n prydferthwch,
gwahaniaethau sy'n plethu mewn undod, gyda'n hunaniaeth a'n Cymreictod.
Ond rydyn ni angen gweld cynrychiolaeth deg
yn ein ysgolion..
yn ein swyddi..
yn ein cymdeithasau..
ar draws y byd.

Felly, galwn allan er mwyn i'n lleisiau gael eu clywed.
Galwn allan am lefydd saff i adeiladu cymunedau newydd.
Galwn allan i godi ymwybyddiaeth
dros ein ffrindiau a'u cefndiroedd.
Mae'n hen bryd i'r agwedd tuag at liw ein croen newid.

Mae angen i ni annog caredigrwydd
ac addysgu
i dderbyn a gwella perthynas rhyngddom
ni a phawb

Does dim lle i sylwadau hiliol.
Os da chi'n eu clywed, mae'n rhaid
Galw. Nhw. Allan
Does dim lle i ragfarnau.
Os da chi'n eu gweld, mae'n rhaid
Galw. Nhw. Allan.

Cymerwch ran

**18 Mai 2023**

Rhannwch ein Neges Heddwch ac Ewyllys Da ar Wrth-hiliaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ar Mai 18, gan ddefnyddio:

#Heddwch2023

Diolch am eich cefnogaeth.

@Urdd
Urdd Gobaith Cymru
@urddgobaithcymru


heddwch@urdd.org
www.urdd.cymru/heddwch

# Y Galeri



Os am weld gwledd o ddanteithion gweledol a detholiad deniadol o gardiau, lluniau a cherfluniau, ewch i ymweld â 'Y Galeri' sydd mewn safle ganolog yn y Twyn, ganol y dref, o dan Gaffi'r Ganolfan Groeso, yn wynebu'r gofadail. Mae yno luniau, cardiau cyfarch, cardiau post, ffotograffau a phob math o gelfyddyd gain a'r cyfan yn ddwyieithog, a'r croeso, yr awyrgylch a'r gwasanaeth yn y Gymraeg. Cadwodd Karen, y perchennog newydd, at enw gwreiddiol y siop am ei fod wedi'i sillafu'r ffordd Gymraeg, heblaw am hynny byddai wedi ildio i'r demtasiwn i'w alw yn 'Cwtsh Dan Stâr'!

Mae yma Ogof Aladdin i'r sawl sydd am siopa am anrhegion a swfenîrs. Ceir yno glustogau, bagiau a lluniau ar y wal. Mae yno fodelau serameg, pren, gemwaith, tecstilau a gwaith gyda gwifrau. Yn ogystal mae yno stoliau a chadeiriau pren ac mae'n gallu addasu llawer o'r cynnyrch i gwrdd â chwant a chwaeth unigolion. Felly, os nad yw'r union beth yr ydych yn chwilio amdano yno, cewch unrhyw beth sydd wedi'i winio ei addasu gan newid eitemau i gwrdd â'ch hoffter.



Bydd trigolion tref Caerffili yn sicr o gofio 'Y Galeri' yn agor, rai blynyddoedd yn ôl yn Stryd Sain Ffagan, yr ochr draw i siop Peacocks. Ryw bymtheg mis yn ôl daeth Karen Evans yn berchen ar y lle. Bu Karen, sydd o Fedwas, yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Mae'n adnabyddus yn ein hysgolion gan iddi weithio yn Uned Gymraeg Coed y Brain yn Llanbradach cyn mynd ymlaen i wneud ei chwrs NNEB i fod yn weinyddes feithrin. Yna, bu mewn amryw ysgolion gan orffen yn Ysgol y Castell wedi pum mlynedd ar hugain o wasanaeth. Bu eu merched Kate a Menna yn ddisgyblion yn Ysgol y Castell cyn mynd ymlaen i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.



Prif ddiddordeb Karen wrth addysgu plant oedd gwaith celf o bob math. Dysgodd blant o oed Meithrin hyd at flwyddyn 6 gan gynnal clwb gwinio a a gwaith crosio. Mae ei hoffter o blant a'i gallu i'w difyrru yn parhau gan ei ei bod yn croesawu plant i'w siop newydd. Mae am ddenu plant bach yno gan ei bod yn teimlo ei bod yn bwysig eu bod yn gweld gwaith celf tra'u bod yn ifanc a rhydd gyfle iddynt drin a thrafod y modelau. Mae bwrdd bach yno ar eu cyfer iddyn nhw allu gwehyddu, lliwio a chwarae gyda gleiniau gan amrywio'r gweithgareddau'n aml. Yn ogystal â'r sesiynau gyda phlant, mae'n awyddus i fynd allan pan ddaw'r haf i ysgolion, y rhai Cymraeg a'r rhai lleol eraill, i gynnal sesiynau celf a chrefft.



Gellir gweld a phrynu gwaith hyd at bump ar hugain o artistiaid lleol yno. Yn ogystal â rhedeg y siop yn y Gymraeg, mae hi'n hoff iawn o glywed dysgwyr neu siaradwyr newydd yn ymarfer eu Cymraeg yn y siop. Mae'n werth mynd i'r siop petai ond i edrych o gwmpas ond yn sicr cewch eich temtio i brynu. Os am fwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â Karen ar Kazevz67@gmail.com

# Pwcadibo - neu be ? .....(2)

Yn y rhifyn diwethaf o Cwmni amlinellais stori Alun Booth am y pwca cymwynasgar fyddai'n helpu ar fferm y teulu liw nos - dyna'r stori gafodd Alun gan ei deulu pan oedd yn blentyn yn Ynysddu, bron ganrif yn ôl. Mae'r llun yn dangos Alun, rai blynyddoedd yn ôl, yn sefyll mewn ffermdy fu'n eiddo i'w deulu. Fel y gwelwch, mae tŷ fu unwaith yn gartref clyd yn furddun heddiw.

Ond fe all murddun gynnig cysgod o hyd, a dyna yw esboniad stori'r pwca cymwynasgar, yn ôl Alun.



Roedd bwthyn adfeiliedig ar lethr y mynydd uwchben y fferm, a hwnnw oedd "Tŷ'r Pwca" i Alun a'i ffrindiau pan oedden nhw'n blant. Credent taw dyna gartref y pwca fyddai'n helpu ar y fferm, ond er mor gymwynasgar oedd y pwca, roedd gormod o'i ofn ar y plant i fynd yn agos at y lle.

Erbyn heddiw mae Alun yn meddwl taw rhywun oedd mewn trwbwl gyda'r awdurdodau wnaeth ei gartref yn yr adfail anghysbell. Mae'n siŵr bod ei deulu'n gwybod amdano ac yn dewis cadw'n dawel. Efallai bydden nhw'n cynnig bwyd a chymorth i'r ffoadur hefyd, ond ni fyddent am roi gwybod i'r plant, rhag ofn i un ohonynt, yn ei ddiniweidrwydd, ddatgelu'r gyfrinach. Ffordd y ffoadur hwn o ddiolch iddynt am eu hymgeledd fyddai gwneud peth o waith trwm y fferm -ond yn y nos yn unig, pan na fyddai neb o gwmpas i'w weld. Byddai'r storïau am y pwca yn cadw'r plant a phobl ofergoelus draw o'i loches, felly ni fyddai neb yn sylwi ar arwyddion bod rhywun yn cysgodi yn yr adfail. Byddai unrhyw olau a welid yno gyda'r nos yn cadarnhau'r ofnau am ysbrydion drwg ...

Mae'r esboniad hwn yn apelio'n fawr ataf. Mae tipyn o dystiolaeth i ddefnyddioldeb storïau ysbryd wrth geisio cuddio cyfrinachau. Mae hanesion coets y Dyn Drwg yn gyffredin yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd smyglo'n rhemp. Ni fyddai neb yn barod i edrych allan trwy'r ffenest petaen nhw'n clywed sŵn olwynion trymion yn mynd heibio ganol nos. Mae hanes sawl Ledi Wen yn gysylltiedig gyda phlasdai, ond yn ymwneud llai gyda hanesion rhamantus cariadon anhapus na phenderfyniad howscipar ofalus (yn ei gwn nos) i gadw llygad ar stoc ei phantri rhag ofn bod gwas neu forwyn yn mentro dwyn bwyd oddiyno gyda'r nos. Petai rywun yn gweld cip o wisg wen, byddent yn fwy tebygol o ruthro yn ôl i'w gwelyau na mentro 'mhellach!

Rai blynyddoedd yn ôl roedd llawer o sylw'n cael ei roi i chwedlau cyfoes (*urban legends*) a phwysleisiwyd yr elfen o ofn sy'n gysylltiedig â llawer ohonynt. Byddwch i gyd wedi clywed am yr ysbryd sy'n bodio mewn lle mae llawer o ddamweiniau car wedi digwydd: oni fyddwch chi'n gyrru'n fwy gofalus ar hyd y darn hwnnw o'r heol? Neu beth am y person sy'n cuddio yng nghefn eich car (wedi sleifio yno pan fyddwch wedi mynd i brynu tocyn parcio) ac yna'n ymddangos yn sydyn er mwyn ymosod arnoch chi? Gwers: byddwch yn wyliadwrus mewn meysydd parcio. Neu beth am y neidr wenwynig sydd wedi ei chuddio mewn basged o ffrwythau estron? Gwers: byddwch yn ofalus wrth drafod y fath ffrwythau.

Mae ofn yn arf pwerus iawn er mwyn rheoli ymddygiad, ac mae llawer o'r storïau hyn yn dylanwadu arnom i fod yn wyliadwrus mewn sefyllfaoedd all fod yn beryglus. Felly gyda phwca plentyndod Alun: roedd ofn Tŷ'r Pwca yn ddull effeithiol iawn o gadw plant draw o loches rhywun mewn trwbl. Ond dyma fi'n cofio hefyd am y rhai fu'n ffoi trwy Gwm Sirhywi ar ôl cyflafan Casnewydd yn 1839: a lwyddodd rhai ohonyn nhw i gael lloches mewn murddun anghysbell, a chymorth wedyn gan bobl oedd yn cydymdeimlo â nhw? Tybed sawl ffoadur sydd, dros y canrifoedd, wedi cymryd rôl y pwca caredig ar ffermydd a mynyddoedd Cymru?

# Caws Caerffili



Yn y llun gwelwn Huw Rowlands a Deian Thomas, y ddau fu wrthi'n creu Caws Caerffili, yng Nghaerffili, a hynny am y tro cyntaf ers degawdau. Dechreuon nhw'r fenter ryw dair blynedd yn ôl cyn y clo mawr ond wedi bod wrthi'n iawn ers Ionawr 2023.

Enw'r cwmni yw 'Cwmni Caws Caerffili' a chynhyrchir y caws wrth ymyl canol tre Caerffili. Bydd yn cael ei werthu i siopau lleol a thrwy'r wefan pan gaiff honno ei lansio. Caws Caerffili fydd eu prif gaws ond hefyd bydd gwahanol fathau o flas yn dod wrth i'r cwmni dyfu. Does dim penderfyniad wedi'i wneud, hyd yn hyn, beth fydd pris y caws.

Gan fod Huw o'r cwm ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a Deian o Gwmarthen, maen nhw'r perchnogion yn rhugl yn y Gymraeg ac yn fwy na hapus i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith beunyddiol. Maen nhw hefyd yn rhagweld y bydd y cwmni yn tyfu ac y byddan nhw'n cyflogi staff.

Cawson nhw gymorth i sefydlu'r fusnes gan y Llywodraeth Ganolog a thrwy RDP, rhaglen ddatblygu wledig Cwm a Mynydd Cyngor Caerffili. Arian Ewropeaidd oedd hwn. Hefyd maen nhw'n derbyn grant gan Gyngor Caerffili. Ac maen nhw'n edrych ymlaen at hysbysebu'r cynnyrch ar dudalennau "Cwm*ni*".



# Rhymni – Y Dref a'r Afon

*Malcolm David*

Yr Odyn Fach yw tarddiad yr afon Rhymni, lan ym Mannau Brycheiniog. Mae'n llifo i lawr trwy gronfa fechan, i lawr drwy Lechryd, lle'r oedd ffiniau Sir Forgannwg, Sir Frycheiniog a Sir Fynwy yn cyfarfod â'i gilydd. Yna mae'n dechrau ar ei thaith i lawr cwm Rhymni, cyn belled â'r Draethen, lle mae'n gadael cwm Rhymni gan newid cyfeiriad tuag at Gaerdydd. Yno mae'n mynd drwy Dredelerch (Rumney) a Llanrhymni a ddylai fod yn Glanrhymni cyn llifo i mewn i'r afon Hafren. Taith o tua deng milltir ar hugain.

Y pentref cyntaf y rhed yr afon drwyddi yw Llechryd a arferai fod yn Sir Frycheiniog, a jyst ochr arall yr afon mae Butetown neu'r Drenewydd a oedd yn arfer bod yn Sir Forgannwg. Enwyd y pentref ar ôl yr Ardalydd Bute a oedd yn berchen ar y tir. Fe'i hadeiladwyd yn yr 1830au yn gartrefi i'r gweithwyr haearn lleol. Tyfodd y boblogaeth ac yn y 1870au, pan newidiodd yr ardal i gloddio glo, tyfodd y boblogaeth yn aruthrol.



Daeth Butetown yn ardal gadwraeth yn 1972.

Ffilmiwyd pennod o Dr Who yma yn 2012 gyda Diana Rigg yn serennu.

Ger Butetown mae'r Simnai Ddirdro sy wedi ei seilio ar simnai'r gwaith haearn a arferai fod yn gyffredin yng Nghwm Rhymni.

Y dref nesaf ydy Rhymni sy'n ddyledus am ei bodolaeth, fel yr holl drefi eraill ar ben y cymoedd, i'r digonedd o lo a mwyn haearn yn agos i'r wyneb, y ddau yn hawdd eu cyrraedd.

Mae 'na stori sut gafodd glo ei ddarganfod yn Rhymni.

Cafodd y Tylwyth Teg, a oedd yn byw yn yr ardal, drwbl gan gawr lleol. Penderfynon nhw ofyn i frân gyfeillgar am help. Lladdodd y frân y cawr, yna llosgodd y tylwyth teg gorff y cawr ac roedd y tân mor ffyrnig, nes iddo ddatguddio'r glo dan gorff y cawr.

Ym mhen gwaelod Rhymni mae'r ffordd yn hollti'n ddwy, mae'r chwith yn mynd i Abertyswg, ac mae'r dde yn croesi'r afon i Bontlotyn a oedd yn Sir Forgannwg. Dywedir ar un adeg fod 31 o byllau glo rhwng Rhymni a Phontlotyn.



Mae rheilffordd Caerdydd i Rymni yn rhedeg drwy Bontlotyn dros draphont o 10 bwa, a tan tua 1990 roedd tafarn y "Railway Inn" dan y rheilffordd rhwng 3 o'r bwâu. Mae'n debyg taw y rheswm dros godi'r dafarn dan y bwâu oedd oherwydd dyna oedd yr unig dir oedd ar gael oedd yn rhydd oddi wrth y "temperance restrictions". Golygai hyn y gallai'r trigolion yfed yno ar ddydd Sul ac mae'n debyg i'r yfwyr diolchgar felly ail-enwi'r GWR, y Great Western Railway, yn "God's Wonderful Railway".

Jest i lawr y ffordd o Bontlotyn mae Troedrhiwfuwch. Dylwn ddweud mai dyna le roedd e'n arfer bod oherwydd cafodd e ei ddymchwel yn llwyr, ar wahân i'r hen swyddfa bost yn ystod y 1980au oherwydd bod perygl i'r mynydd lithro i lawr arno.

Gyferbyn â Throedrhiwfuwch, ochr arall y cwm, rydych chi'n gallu gweld lle digwyddodd llithriad anferth



ar yr hen ffordd rhwng Abertyswg a Thredegar Newydd. Roedd y mynydd wedi symud nifer o weithiau ond yn 1930 digwyddodd llithriad tir anferthol, pan syrthiodd tunelli o greigiau i lawr y mynydd gan ddinistrio adeiladau'r lofa a hefyd y ffordd a'r rheilffordd rhwng Abertyswg a Thredegar Newydd. Ni ddefnyddiwyd y pwll glo byth wedyn, ac ni chafodd y rheilffordd na'r ffordd  eu hail-agor chwaith.

Mae'r nam daearegol yn mynd reit drwy ben y cymoedd. Dioddefodd Troedrhiwgwair yng nghwm Sirhywi'r un dynged. Ar un adeg roedd tua chant o dai yno, ysgol, capel, siop, swyddfa'r post, tafarn, ond nawr mae bron pob dim wedi mynd. Mewn adroddiad dywedwyd bod y mynydd y tu cefn i'r pentref yn anniogel. Felly penderfynodd y cyngor symud pawb mas, ac yn y diwedd symudodd pawb heblaw 12 teulu a wrthododd. Nawr dim ond 12 o dai i sydd yno.

Mae'r nam yn mynd reit drwodd i Blaina yng Nghwm Ebbw Fach, lle bu rhaid i bobl adael eu tai am fod y mynydd yn symud i lawr tuag at eu cartrefi.

Y ddau bentref nesaf i lawr o Droedrhiwfuwch ydy Tirphil a'r Brithdir. Gyferbyn â Thirphil, yr ochr arall o'r afon yn yr hen Sir Fynwy, mae Tredegar Newydd.

Yn wreiddiol roedd dwy fferm, Aberysbiwr a Chwmysbiwr yn yr ardal o'r enw 'White Rose' ar un adeg. Wrth gwrs ardal wledig oedd 'White Rose' ond yna yn 1858 agorodd pwll glo 'New Tredegar' a chymerodd y pentref ei enw o'r pwll glo.


Pwll glo Elliot oedd y prif bwll glo yn Nhredegar Newydd ac roedd dwy siafft yno. Suddwyd  y siafft orllewinol yn gyntaf, ac yna rhwng 1888 a 1891 suddwyd  y siafft ddwyreiniol. Caeodd y pwll yn 1967.

Ar ben y siafft ddwyreiniol roedd y tŷ weindio a phan gaeodd y pwll yn 1967 achubwyd y tŷ weindio a'r injan weindio a ddaeth yn Amgueddfa'r Tŷ Weindio.



Cafodd ei hadnewyddu yn 2008, â'r injan weindio yn cael ei chynnal a'i chadw gan wirfoddolwyr, ac mae'n gweithredu ar rai dyddiau yn ystod y flwyddyn.

Y ddwy dref nesaf i lawr y cwm ydy, ochr Sir Forgannwg, Bargod, ac ochr Sir Fynwy, Aberbargod. Llanwodd tri phwll glo'r cwm rhwng Bargod a Phengam ar un adeg, sef Bargod, Gilfach, a Brittania. Yma roedd y domen sbwriel fwyaf yng ngorllewin Ewrop, sydd bellach wedi'i dirlunio a daeth yn barc coetir Bargod, ac yn ardal hyfryd i gerdded ynddi.



## CLWB CERDD

## CWM RHYMNI

Dydd Sadwrn, 20fed o Fai 2:30

Canolfan Gristnogol Siloh, Ystrad Mynach

*Toot Suite (Pedwarawd Utgorn)*

# Steve Bale – O rygbi i'r opera

*Cyn-ohebydd rygbi Fleet Street, ymgeisydd rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Genedlaethol Tregaron, ond – yn bwysicach na phob dim – darllenwr awchus* Cwmni



Wedi treulio pedwar deg pedwar o flynyddoedd fel newyddiadurwr, ac yn enwedig tri deg un fel gohebydd rygbi yn Fleet Street (er nad oedd unrhyw bapur yn y stryd ei hunan erbyn hynny), rwy'n tueddu i dderbyn (gydag ochenaid, rhaid dweud) cwestiynau bron yn feunyddiol am gyflwr y gêm yng Nghymru a thu hwnt. Beth yw eich barn am bopeth, meddan nhw? - yn tybio mai rygbi yw fy niddordeb mwyaf o hyd, hyd yn oed bron i chwe blynedd ar ôl i fi ymddeol.

Wel, na. Papurau? Does dim angen *rîli*, oes e, heblaw wrth gwrs am Cwm*ni* – darllen angenrheidiol bob mis i ni yn lleol – er bo fi'n ddigon ffyddlon o hyd i brynu cwpl o bapurau, ar bapur go-iawn, bob dydd, heb anghofio bod *The Guardian* ar-lein am ddim hefyd. A'r rygbi? Hyd heddiw rwy'n hapus iawn i eistedd yn y gegin a gwylio'r gemau ar y teledu.

Felly erbyn hyn, dydw i ddim yn arbenigwr, does dim gwybodaeth arbenigol gen i bellach, beth bynnag mae fy nghyfeillion yn ei gredu. Ond mae pawb rwy'n gweld yn fy nghylchoedd yn dal i ofyn trwy'r amser am fy marn ar bopeth sy'n digwydd. Y broblem yw bod nhw'n hollol gyfarwydd â fy nghefndir yn dilyn rygbi o gwmpas y byd ar ran *The Independent*, *Express* a'r *Sunday Times* dros dri degawd. Fi, y boi bach o Gastell-nedd sydd wedi bod yn Seland Newydd un deg pedwar o weithiau, Awstralia un deg pedwar a De Affrica wyth gwaith.

Ariannin, Fiji, llefydd egsotig anghysbell o Gymru. Mynychu mwy na phum cant o gemau rhyngwladol, saith taith y Llewod, saith Cwpan y Byd, miloedd o gemau i gyd ar ôl dechrau yng Nghastell-nedd yn 1973. Efallai rydych chi'n gallu gweld sut, ar ôl cymaint o ymlyniad, gall rygbi fynd ychydig yn llai diddorol unwaith nad oedd rhaid cadw'r diddordeb.

Rwy'n gwybod yn llwyr fy mod yn swnio'n ddiflas iawn gyda phawb sydd am siarad â fi am rygbi yn lle'r hyn sy'n llawer mwy o ddiddordeb i fi erbyn hyn. Tasai modd chwarae agorawd ar y dudalen hon, baswn i'n ei chwarae hi yn swnllyd. Oherwydd mai'r opera – yn sicr yn hytrach na'r rygbi – yw fy niddordeb mwyaf, fy mhleser diniwed. Ac a bod yn onest, mae'r opera a finnau yn mynd yn ôl llawer bellach na diwedd fy ngyrfa.

Ro'n i mor lwcus yn mynychu operâu yn y Tŷ Opera yn Sydney, yn y Theatr Colon - un arall o dai opera enwocaf yn y byd - yn Buenos Aires, a llawer o leoliadau eraill. Ocê, mae storiâu mwyafrif yr operâu yn dwp ac mae rhywbeth yn fwy na thwp bod pobl yn sgwrsio drwy ganu. Ond mae popeth yn dibynnu ar y gerddoriaeth, on'd ydy, ac os oes angen, wel rydych chi'n gallu cau eich llygaid jest i wrando ar y canu a'r gerddorfa.

Erbyn hyn mae Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd a'r Hippodrome ym Mryste yn rhoi'r cyfle i fi ddal i fynd mor aml â phosibl, sy'n gyfleus oherwydd fy mod yn byw hanner ffordd rhwng y ddau. Es i yn ddiweddar i Gaerdydd i weld "Y Ffliwt Hudol" gan Mozart. Stori chwerthinllyd, dim synnwyr o gwbl – felly yr un peth mwy neu lai, heb y gerddoriaeth brydferth, â rygbi Cymru. Ac rwy'n dweud hynny fel arbenigwr!

*Bydd mynychwyr clwb Hanes Cwm Ni yn cofio Steve yn ein diddanu â'i atgofion am ei yrfa fel newyddiadurwr. Nawr mae wedi derbyn gwahoddiad i rannu ei ddiddordeb newydd gyda ni. Hoffwn petai mwy o ddysgwyr, fel Malcolm David yn nhudalennau 6 a 7 y rhifyn hwn, yn ysgrifennu eitemau ar gyfer ein papur. Beth amdani!*

# Gaeaf yn Troi'n Haf

Pleser o'r mwyaf oedd mynd i weld llwyfanu drama  gan ein cwmni Cymraeg lleol am y tro cyntaf ers tair mlynedd.  Oherwydd y cloi mawr doedd Cwmni Cwm Ni ddim wedi perfformio drama yn y gymuned ers llwyfannu 'Y Gwcw' ar y ffordd i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019. Doedd yr actorion ddim wedi bod yn segur chwaith gan iddynt rhoi cyflwyniad llafar llynedd am y tân yn Rhiw'r Perai adeg yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd noson lwyddiannus o Ddatrys y Dirgelwch yng Nghanolfan y Glowyr.  Buont hefyd yn cyfarfod ar Zoom yn darllen rhai o'u hoff ddramâu. Cafwyd hwyl anarferol o ddarllen 'Dan y Wenallt' cyfieithiad T.James Jones o 'Under Milk Wood' Dylan Thomas ac mae recordiaid ohono ar You Tube.



Ond nos Fercher, 26ain o Ebrill cafwyd drama go iawn yn Stiwdio Ddrama Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Pontygwindy, gyda pherfformiad o ddrama newydd Denzil John, 'Gaeaf yn Troi'n Haf'.  Drama ysgafn hwylus yn dod i benllanw boddhaol a hynny gyda set syml, effeithiol.   Dan arweiniad Allan Cook, y cynhyrchydd cafwyd perfformiad i'w gofio gan actorion oedd yn amrywiaeth hwylus o'r ifanc a'r llai ifanc.

Roedd Denzil John yn y cast pan berfformiodd y cwmni am y tro cyntaf. Yn neuadd Bedwas, ym mis Gorffennaf 1991, chwaraewyd 'Y Practis' Leyshon Williams comedi fach daclus iawn i lansio cwmni a aeth ymlaen i ddifyrru cynulleidfaoedd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae Ann Lewis yn un o ffyddloniaid y cwmni ac wedi chwarae amryw rannau. Bu Annette Dutt yn cofweinyddu am rai blynyddoedd ond nawr datgelodd ei gallu actio amlwg.



Ymunodd David Hedley Williams ychydig cyn Covid a bu hir ddisgwyl am hwn, ei berfformiad cyntaf. Braf hefyd oedd croesawu dau actor ifanc i'r llwyfan.  Bu Thomas Gunning yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni cyn mynd ymlaen i gael hyfforddiant actio. Ac mae Alice Todd yn dal i fod yn yr ysgol ac actor ifanc ag addewid cyfoethog.

Edrychwn ymlaen at weld mwy o berfformiadau gan ein cwmni lleol ar ei newydd wedd.

# Pen Blwydd 50 Hapus

Estynnwn ein llongyfarchiadau mwyaf gwresog i'n cyfeillion sydd, ac a fu, wrthi yn cynhyrchu papur bro Caerdydd. Ym mis Ebrill 1973 cyhoeddwyd papur Y Dinesydd a hwn oedd y papur bro cyntaf yng Nghymru.

O fewn ychydig dros flwyddyn o'i gynhyrchu gyntaf , roedd 'na ryw hanner dwsin o bapurau bro eraill wedi ymddangos. Hanner canrif ymlaen ers hynny gwelwn bod pum deg wyth papur bro gyda ni yma yng Nghymru.

Y Golygydd cyntaf oedd Norman Willliams. Cofiwn hefyd  y Dinesydd yn cael ei gyhoeddi yn ddyddiol yn ystod ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol a Chaerdydd yn 1978.    Dyna beth oedd camp!

Gwelwn bod rhaglen lawn o ddigwyddiadau i ddathlu'r garreg filltir nodeig hon. I ddechrau, mae'r  rhifyn cyfredol yn 40 tudalen!!! Yn ogystal â'r adroddiadau a'r digwyddiadur arferol gwelir bod  nifer o bobol  a fu'n gysylltiedig â'r papur ar hyd y blynyddoedd yn rhannu eu hatgofion a'u lluniau gyda'r darllenwyr.

# YSGOL GYMRAEG PENALLTAU

## Gwobr Aur y Siarter Iaith

Yn ystod yr haf 2022, cawsom ein gwobrwyo â gwobr aur y Siarter Iaith.

Prosiect wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ledled y wlad yw'r Siarter Iaith, er mwyn hybu'r iaith a Chymreictod gyda'r bwriad o gynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Er mwyn ennill y wobr aur roedd rhaid dangos ein hymdrechion parhaus i hybu'r Gymraeg a Chymreictod. Ein pwyllgor Siarter Iaith, sef y Dreigiau, sy'n arwain hyn gan sicrhau bod arweinwyr, staff, dysgwyr, rhieni a'r gymuned yn ymwybodol o dargedau'r Siarter, yn ogystal ag annog eu cyd-ddisgyblion i siarad Cymraeg ymysg ei gilydd a chynnig cymorth i randdeiliaid sydd ddim eto yn siarad Cymraeg. Rydym ni'n parhau i flaenoriaethu'r iaith a Chymreictod ymhob agwedd o fywyd ein hysgol ac yn rhannu arfer dda fel ysgol arweiniol y rhanbarth.

Cerddwn Ymlaen!














## Ynni Da

Thema Dosbarth Branwen yn nhymor y Gwanwyn oedd 'Ein Byd, Ein Dyfodol' a dysgom bob math o bethau sy'n gysylltiedig ag egni cynaliadwy.

Darllenom ni'r llyfr 'The Boy Who Harnessed The Wind' a chymharon ni Malawi gydag Ystrad Mynach wrth ddysgu mwy am ddyfeisio a pheirianneg. Fel rhan o'r prosiect, gwahoddon ni gwmni 'Ynni Da' i'r ysgol er mwyn datblygu ein dealltwriaeth ymhellach.

Mae'r cwmni yn cynnig profiadau unigryw wrth ddysgu mwy am ynni. Fe ymchwilion ni i mewn i sut mae trydan yn cael ei greu a'i defnyddio yn yr ysgol ac yn ein cartrefi. Cawsom ni ddiwrnod i'r brenin wrth arbrofi ac ymchwilio gyda ffynonellau ynni amrywiol, cyn creu paneli solar ein hun er mwyn pweru ceir rasio.

## Prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol - Ein Hardal Ni

Eleni, rydym wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn grant gan Gyngor y Celfyddydau i weithio ar gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Roedd disgyblion dosbarth Gelert yn awyddus iawn i feddwl am ffordd greadigol o gyflwyno ein hardal ni i bobl eraill. Penderfynom ni i greu cân ac animeiddiad er mwyn apelio at blant yn ogystal ag oedolion.

Aethon ni ati yn gyntaf i ymchwilio hanes yn yr ardal gydag help arbenigwyr lleol - Dr Elin Jones a Dr Ben Curtis.

Yna, fe gydweithiom ni gyda'r artist Picasso Griffiths a'r Cerddor Gareth Roberts i gyflwyno'r gwaith.

Dysgom ni sut i greu cartŵn wrth ddefnyddio llyfr fflip, sut i chwarae Pbuzz a nifer o offerynnau eraill. Cyfansoddom ni ein cân ein hunain hefyd. Roedd y prosiect yn hwyl ac wedi agor ein llygaid i'r hanes sydd o'n hamgylch!







Ein Hardal Ni











## Diwrnod Syndrom Down

Bob blwyddyn ar Fawrth 21, mae Diwrnod Syndrom Down y Byd yn cael ei ddathlu i godi ymwybyddiaeth o'r syndrom.

Mae'r diwrnod yn cael ei ddathlu ar yr 21ain o Fawrth er mwyn cynrychioli'r broses unigryw sy'n digwydd pan fo copi ychwanegol o'r cromosom 21, proses sy'n achosi Syndrom Down.

Bob blwyddyn, mae pobl yn cael eu hannog i wisgo sanau lliwgar neu batrymog, neu ddwy hosan wahanol er mwyn nodi Diwrnod Syndrom Down y Byd. Dechreuwyd yr ymgyrch 'Lots of Socks' gan Down Syndrome International i annog trafodaeth ynghylch amrywiaeth, a bod yn unigryw a chynhwysol.

# Colofn Dafydd Islwyn



Yn y golofn y mis diwethaf soniais am y dôn 'Price'. Yn ddiweddar deuthum o hyd i lythyr gan Huw Williams, Bangor, yr awdurdod ar 'Emynau a Thonau'. Meddai yn ei lythyr ataf 1af o Dachwedd 1986:

"Rwyt yn ymholi ynghylch y dôn 'Price' gan Daniel Protheroe. Yn anffodus mae brawddeg neu ddwy yn eisiau yn hanes yr alaw hon fel y cofnodir hwnnw yn 'Rhagor am Donau a'u Hawduron' 1969, felly dyma geisio crynhoi'r hyn ddigwydd i mi ei wybod am gefndir y dôn o'r newydd, fel petai.

"Seiliaf yr hanes ar dystiolaeth Miles Williams, Pontlotyn, yn rhifyn Tachwedd 6ed, 1946 o'r 'Goleuad' lle dywedir bod 'Price' wedi cael ei chanu yng Nghymanfa Ganu M.C. Dosbarth Rhymni ar Fai 7fed 1934 gyda John Price yn arwain y gynulleidfa. Dan Protheroe oedd yr arweinydd arfaethedig, eithr cymerwyd ei le gan Dr D.E. Parry Williams a galwodd y gŵr hwnnw ar John Price i arwain y dôn. Yn yr un Gymanfa canwyd y dôn 'Wilkesbarre' er cof am Protheroe. Deallaf mai ar y copi hen nodiant gwreiddiol a argraffwyd at wasanaeth y Gymanfa Ganu uchod nodwyd mai Rhymni oedd enw'r dôn gyda'r geiriau gyflwynwyd i Mr John Price ar ei ben-blwydd yn 82 wedi ei hargraffu uwch ei phen. Lluniwyd y dôn ar gyfer tri phennill o emyn adnabyddus Dyfed - "I Galfaria Trof fy Wyneb", eithr pan argraffwyd y dôn yn netholiad canu'r M.C. 1937-38, dau bennill argraffwyd ar ei chyfer a Price oedd ei henw."

Soniwyd yn rhifyn mis Mawrth "Cwm*ni*" am draddodiad eisteddfodol y cymoedd. Ym mis Ionawr 1965 prynais gopi o Y Genhinen 1890, cyfrol 8, am fod ynddi ysgrifau am ddau lenor â chysylltiad â phlwyf fy mebyd, Pentraeth, Ynys Môn. Heddiw darllenaf hi i gasglu gwybodaeth am eisteddfodau ardal ein papur bro. Yn eisteddfod y Coed Duon 1870 enillwyd y Gadair gan Gurnos am ei awdl 'Y Farn'. Bu ef yn byw yn Llanbradach ar ddiwedd ei oes. Islwyn oedd y bardd a Gadeiriwyd yn eisteddfod Caerffili 1874 am ei awdl 'Cartref'. Yn 1848 cynhaliwyd eisteddfod yn Ystrad Mynach, cadeiriwyd Dewi Hafren am ei farwnad i Ddoctor Evans. Yr un flwyddyn yn eisteddfod Caerffili traethawd gan Ieuan Hydref a wobrwywyd. Ymhen deugain mlynedd Cadeiriwyd Athan Fardd, Abertawe, am ei awdl H.M. Stanley yng Nghaerffili. Gorsaf y rheilffordd oedd testun cerdd y Gadair yn eisteddfod Caerffili yn 1889. Cadeiriwyd D. Onllwyn Brace.

Testun yr englyn yn eisteddfod y Groes-wen 1884 oedd Gorchymyn, a Carnelion enillodd. Enillodd hefyd am ei englyn 'Yr Eilliwr" yn eisteddfod Caerffili 1885. Yn eisteddfod Abertridwr 1888 testun y cywydd oedd 'Y Ceiliog Gwynt' - chwedeg mlynedd cyn iddo gael ei osod yn destun yr englyn yn y Genedlaethol, Caerffili! Yr enillydd Carnelion. Gwelodd Ceiliog Gwynt fel,

"Esboniwr awr y corwynt  
Gŵyr bennod ac adnod y gwynt."

O brofiad y canodd?  
"Doed a ddêl eithr garw helynt  
yw cael gŵr fel ceiliog gwynt."

Erthygl addysgiadol arall yn rhifyn mis Mawrth o "Cwm*ni*" oedd yr un am y Parchedig Cadwaladr Tawelfryn Thomas a fu'n weinidog y Groes-wen o 1879 hyd 1926 ac yn batriarch bro. Yn 1909 golygodd gofiant Ieuan Gwynedd (1820-52). Fe gythruddwyd Ieuan Gwynedd gan agwedd sarhaus awduron Y Llyfrau Gleision 1847 tuag at yr iaith Gymraeg. Fe wnaeth ei feirniadu yn ddi-flewyn ar dafod. Dywedodd mewn un erthygl: "yr ydych yn tybied y gallwch ddifrodi yr iaith Gymraeg drwy ysgolion dyddiol Seisnig. Ni waeth i chi geisio atal y rhaeadr rhuadwyllt yn ei ddisgyniad....... Bydd yr iaith hynafol y ceisiwch ei dileu mewn bri pan y bydd coffadwriaeth warthus yr Adroddiadau hyn wedi pydru. Nid gwaith hawdd fydd difodi iaith...."

# Ymweld â Phenarth - ar y trên!

Roedd tipyn o gyffro yng ngorsafoedd rheilffordd Cwm Rhymni ar Ebrill 19, a naws trip Ysgol Sul i'w brofi yno hefyd. Yn y Bargod ac ym Mhengam, yn Ystrad Mynach a Chyffordd Aber, ac yng Nghaerffili ei hun roedd grwpiau bychan wedi ymgynnull y bore braf hwnnw i ddisgwyl am y trên fyddai'n eu cludo i lan y môr. Roedd gan bob un pecyn o frechdanau a photel o ddiod; roedd rhai darbodus yn cario cot law neu ymbarél - ac roedd pob un yn amlwg yn edrych ymlaen yn fawr at ddiwrnod yng nghwmni ei gilydd yn awyr iach y môr ym Mhenarth.

Ond er mor hwyliog oedd y grwpiau hyn, ac er yr holl baratoadau gofalus, nid plant oedd yn cyfarch ei gilydd o ffenestri'r trên, ac nid eu mamau ond nhw eu hun oedd wedi torri'r brechdanau a sicrhau bod diod a chot law wedi eu hychwanegu at y paratoadau. Na, roedd y rhan fwyaf o'r teithwyr hapus hyn yn famau eu hun, ac roedd sawl mam-gu yn y cwmni hefyd. Nid plant Ysgol Sul oedd yn mynd ar y daith bleser hon, ond aelodau parchus Merched y Wawr Cwm Rhymni a dderbyniodd wahoddiad i dreulio'r diwrnod gydag un o'u haelodau, Nia Parsons, sydd wedi symud i fyw i Benarth. Chwarae teg i Nia, er iddi symud i ffwrdd o'r cwm, mae wedi dal yn aelod gyda'n cangen ni, ac yn manteisio ar hwylustod y rheilffordd i gadw mewn cysylltiad.

A dyna gyffro wedi i ni gyrraedd yr orsaf ym Mhenarth! Roedd Nia wedi trefnu ceir i'n cludo i'w thŷ, sy'n rhyw filltir i ffwrdd o'r orsaf, ond roedd rhai aelodau'n barod i gerdded draw - unwaith iddyn nhw gael disglaid mewn caffi cyfagos. Mae rhai plant lletchwith i gael ar bob trip, on'd oes? Ie, roedd y coffi'n araf iawn yn cyrraedd, a rhaid oedd iddynt ddefnyddio gwasanaeth tacsi Nia yn y diwedd wedi'r cyfan!

Roedd croeso tywysogaidd yn ein disgwyl yn nhŷ Nia - nid oedd rhaid aros am de neu goffi! Roedd yn ddiwrnod braf o wanwyn, a manteision ni ar yr heulwen a gardd eang Nia i fwynhau picnic go iawn yn ogystal â chwmni'n gilydd. Braf iawn oedd cael cwmni rhai o'n haelodau sydd wedi bod yn gaeth i'r tŷ yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a phleser arbennig i Dilys a Nia ei hun oedd cael cwmni hen ffrind o ddyddiau Ysgol Rhydfelen oedd yn aros gyda Dilys.

Ac roedd Nia wedi trefnu pleser ychwanegol i ni hefyd. Wedi i ni wledda, cawsom glywed hanes rhyfedd yr ynys honno rydym i gyd yn gyfarwydd â hi o bell, sef Ynys Echni. Mae hi a'i chwaer, Ynys Ronell, i'w gweld o fynydd Caerffili, ac yn amlwg iawn pan fyddwch yn edrych dros y môr yn y Barri - a Phenarth hefyd, wrth gwrs.

Bydd rhai o ddarllenwyr y papur hwn yn gyfarwydd ag erthyglau difyr ac ysgolheigaidd Mel Hopkins yn *Y Cymro.* Ynddynt mae'n ymdrin ag ystod o bynciau hanesyddol ac yn cynnig adroddiadau heriol a dehongliadau gwreiddiol. Wel, yn ffodus iawn i ni, mae'r dyn talentog hwn yn digwydd bod yn gefnder i Nia, ac yn barod i ddifyrru ei ffrindiau. Felly, cafodd Merched y Wawr eu tywys gan Mel trwy filoedd o hanes Ynys Echni fach - o Oes yr Efydd i Sant Cadog, o frenhines o Loegr i forladron o Gymru, ac o longddrylliadau a goleudy i ysbyty'r geri farwol (*cholera*) i farics yr Ail Ryfel Byd. Yr hyn oedd yn plesio ei gynulleidfa o gyn-athrawesau fwyaf, cofiwch, oedd disgrifiadau bywiog Mel o'i deithiau i'r ynys yng nghwmni plant ysgol!

Mae Mel - a'i dad o'i flaen - wedi bod yn ceisio hybu diddordeb pobl yn Ynys Echni, ei hanes a nodweddion y bywyd gwyllt sydd arni. Yn sicr, fe lwyddodd i godi diddordeb Merched y Wawr, ac mae sawl un yn gofyn am daith i'r ynys y flwyddyn nesaf. Cawsom gyfle wedyn i gerdded draw i lan y môr ac edmygu Ynys Echni ac Ynys Ronell ei hun, a rhyfeddu at eu harddwch yn ogystal â'u hanes.

Roedd ein hymweliad â Phenarth yn tynnu tua'i derfyn erbyn hyn. Ymlwybron ni yn ôl i'r orsaf - yn union fel parti Ysgol Sul gynt: wedi mwynhau diwrnod braf ar lan y môr yng nghwmni'n gilydd ac yn barod i orffwys (a hepian) ar y ffordd adre...

# Pys pêr - a syniad da?



Dyma rai o flodau harddaf ein gerddi - hardd o liw, gosgeiddig eu tyfiant, a hudolus eu persawr. Rwy'n ymfalchïo ynddynt bob haf, ac wedi llwyddo i'w tyfu'n llwyddiannus ers blynyddoedd.

Ond eleni, am ryw reswm, rwy ar ei hôl hi gyda'r ardd yn gyffredinol. Rwy'n credu bod peth o'r bai ar yr wythosau o law a gawsom fis Mawrth -heb sôn am yr eira ar ddechrau'r mis. Serch hynny, does dim rheswm yn y byd pam na lwyddais i blannu hadau'r pys pêr ym mis Ionawr fel arfer. Roedd yr hadau gen i, a'r potiau bach, a'r pridd - ond nid yr amser, rywsut na'i gilydd.

Rhaid oedd bwrw ati erbyn dechrau Mawrth, a dyna beth wnes i, gan ddefnyddio'r potiau bach, bach sydd yn caniatáu i chi blannu'r planhigion bach allan heb eu diwreiddio. Wel, dyna oedd y syniad. Dyma'r tro cyntaf i fi ddefnyddio'r rhain ar gyfer pys pêr. Rwy wedi arfer plannu tair pysen gyda'i gilydd mewn potiau mwy o faint, ond mae'n rhaid tynnu'r gwreiddiau ar wahan wrth eu plannu allan. Felly, ces i'r syniad eleni o blannu pob pysen fach yn ei phot ei hun.

Ond... fel y gwelwch, mae'r bysen yn fwy o faint nag a feddyliais, ac mae rhai o'r planhigion yn rhy fawr i'w cartrefi, mae'n amlwg. Ac mae'n amlwg hefyd i fi fethu â'u plannu'n ddigon ddwfn yn y pridd. Mae rhai yn dringo allan o'r potyn!

Beth sy'n dod nesaf? Mae awydd arnaf i'w plannu yn yr ardd, ond ydyn nhw'n barod i hynny eto? Mae golwg fregus iawn ar y cryfaf ohonynt, ac fe all hi rewi gyda'r nos hyd yn oed ym mis Mai... A ddylwn i eu plannu'n unigol mewn potiau solet mwy o faint? Jobyn digon di-enaid fydd dod o hyd i botiau addas, eu llenwi â phridd a phlannu'r planhigion bach bregus hyn ofalus. Diflas yw meddwl am yr oriau o waith y bydd hynny yn ei olygu!



# Brenhines y Bwrdd



Wrth i fi baratoi at ysgrifennu'r darn hwn, sylweddolais fod y rysáit hwn eto yn defnyddio bara sydd dros ben. Nid oedd yn fwriad gennyf argymell cynilo ar fwyd, ond ymddengys fod yr holl sôn y dyddiau hyn am gostau byw wedi dylanwadu arnaf heb i fi sylweddoli hynny.

Dyma rysáit darbodus arall felly, ond o leiaf mae enw crand iddo - ac un arbennig o addas i fis pan fydd cymaint o sylw yn cael ei roi i frenin a brenhines. Yr enw Saesneg ar y pwdin hwn yw "Queen of Puddings", ac mae'n llawn haeddu ei theitl yn fy marn i. Mae hi'n edrych yn bert iawn pan ddaw o'r ffwrn, gyda'i choron o ferang uwchben gwisg goch ac euraidd, ac mae'n blasu'n fendigedig. Felly, os hoffech fynd ati i greu brenhines - yn eich cegin a heb unrhyw rwysg o gwbl na gwariant mawr - dyma'r dull o wneud hynny.

I ddechrau, bydd angen 3 owns/85 gram o fara sych wedi ei falu'n fân, a rhowch y rheiny mewn basn wedi ei iro'n dda. Yna, arllwyswch tri-chwarter peint/430 litr o laeth i jwg a gratiwch groen hanner lemwn iddo cyn ychwanegu 1 owns/30 gram o fenyn i'r gymysgedd. Twymwch hwnnw (rwy'n defnyddio'r meicrodon, ond mae angen bod yn wyliadwrus: twymo'r llaeth sydd ei angen, *nid* ei ferwi!)

Nawr mae angen gwneud rhywbeth eitha anodd (yn fy mhrofiad i, beth bynnag), sef rhannu melyn wy oddi wrth y gwyn- a gwneud hynny ddwywaith hefyd. Rhowch wyn y ddau wy mewn cwpan ar wahan, a'r melyn mewn bowlen. Y cam nesaf yw chwisgio 1 owns/30 gram o siwgr mân i'r melyn wy, cyn hidlo'r cymysgedd i'r llaeth twym, gan ofalu bod y cyfan wedi ei gymysgu'n dda. Arllwyswch y cyfan i'r bara, gan ei gymysgu'n dda eto, a gadewch iddo sefyll am chwarter awr o leiaf - gall sefyll am ragor o amser. A dyma'r amser i gynnau'r ffwrn - 180 C/Nwy 4.

Pan fyddwch yn barod, rhowch y fowlen yn y ffwrn, a'i gadael yno am ryw hanner awr - gall gymryd mwy o amser na hynny i goginio'n iawn, cofiwch. Mae'n barod pan fydd y canol yn teimlo'n solet, ac yna cewch ei dynnu o'r ffwrn. Wrth iddo oeri ychydig, dyma gyfle i chi dwymo dau lond llwy fwrdd o jam coch a'i daenu dros y pwdin. Mafon yw'n ffefryn i, ond fe fyddai mwyar neu gyrens duon yn rhoi lliw imperialaidd i'r frenhines hon.

Nawr rhaid curo'r gwyn wy nes ei fod yn ffurfio pigau wrth i chi godi'r chwisg o'r fowlen. Ychwanegwch hanner owns/15gram o siwgr mân, a chwisgwch eto. Pan fydd y pigau bach yn codi eu pennau, ychwanegwch hanner owns/15 gram arall o siwgr mân - yn dyner ac yn ofalus, plîs: creadur bregus iawn yw merang.

Taenwch y merang dros y pwdin, a rhowch y frenhines orffenedig yn y ffwrn am ryw 15 - 20 munud arall, nes bod y merang yn dechrau lliwio.

Yna, gyda pha bynnag seremoni sy'n gweddu i'r achlysur, cyflwynwch Frenhines y Bwrdd i'w phobl!


**MERCHED y WAWR** **Cwm Rhymni**

**TŶ LLANELLI**

**Taith Tywys a Chinio**

**Dydd Mercher, 17eg o Fai**

**Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com**

**Croeso i chi ymuno â ni.**

Llyfrau'r Enfys

Llyfrau, cardiauCDau

gan Vikki Pearce

**llyfraurenfys@gmail.com**

**07956555265**.


Byddwn yn Ffiliffest

# Y Parchedig David Williams (Pwllypant)

**1709-1785**

Na, nid y David Williams a roddodd ei enw i'r parc hyfryd hwnnw yng Nghaerffili. Nage, athro ar y David Williams hwnnw sydd gennym yma. Rhoddir yr enw 'Pwllypant' wrth ei enw i wahaniaethu rhyngddo a'i ddisgybl enwog ac oherwydd mai cartref y teulu oedd Tŷ Pwllypant. Rhoddwyd yr enwau "Cedar Tree" a chyn hynny'r "Corbetts' Club" o bryd i'w gilydd ond fe'i adwaenir bellach fel y "Toby Carvery".

Yn wir, bedyddiwyd y tŷ yn 'Corbett's Club' am i un o ddisgynyddion y Parchedig David Williams roi hen gartref ei deulu yn anrheg i'r Ardalydd Bute – cymaint oedd ei edmygedd o'r gŵr cyfoethog iawn hwnnw! Defnyddiodd yr Ardalydd y tŷ ym Mhwll-y-Pant wedyn fel lle y gallai ei asiant fyw ynddo ac, mae'n debyg fod gŵr o'r enw Corbett yn un o'r rheiny.


Tŷ Pwllypant

Daeth Williams yn weithgar fel rhan o'r mudiadau a sefydlwyd yn dilyn y rhyddid i addoli a gafwyd yn sgîl y Toleration Act 1689. Trefnodd i'r enwog Howell Harris ymweld â Chaerffili ar deithiau pregethu yn 1738 a 1739. Ac yn 1739 aed ati i adeiladu'r capel annibynnol cyntaf yn yr ardal a hynny yn y Watford. Bu David Williams yn weinidog ffyddlon ar y capel hwnnw am hanner can mlynedd. Dilynodd capel y Groeswen ychydig yn ddiweddarach yn 1742/43. Ac er mai Methodistiaid Calfinaidd (Presbyteriaid) oedd hwnnw ar y dechrau, daeth yn gapel annibynnol oherwydd, fe gredir, anawsterau ordeinio. Dywedir i weinidogaeth gadarn David Williams yn y Watford hefyd fod yn ffactor wrth i'r Groeswen droi at enwad yr annibynwyr.

Addysgwyd David Williams yn yr Academi yng Nghaerfyrddin ac mae H.P. Richards yn ei gyfrol ddefnyddiol, 'History of Caerphilly', yn dweud iddo wedyn gael ei ordeinio yn weinidog Eglwys Annibynnol y Drindod yng Nghaerdydd ac iddo fod yn weinidog diwyd a llwyddiannus. Bu hefyd wrthi'n sefydlu Ysgolion Cylchynol, yn null Griffith Jones, Llanddowror, yn yr ardal hon. Gyda John Thomas, curad Eglwys Gelligaer, aeth ati i drefnu canolfannau pregethu. Dywedir, hefyd, iddo gondemnio'n gryf iawn yr arfer o ymladd ceiliogod gan lawenhau o weld y fath arfer ar drai o gwmpas Caerffili.


*Capel y Watford*

Symudodd i Fferm y Cwm a bu'n cynnal ysgol yno am flynyddoedd lawer. Gellir gweld y fferm hon drwy'r coed, pan nad ydynt yn eu dail, wrth deithio tuag at ben Mynydd Caerffili o Ben Rhos. Gydag ystad enfawr Castle View ar yr ochr chwith mae'r fferm i'w gweld ychydig ar ôl y troad sy'n arwain tuag at Glwyd y Gurnos (y Black Cock erbyn hyn). Yno addysgwyd David Williams, Waunwaelod, a roddodd ei enw i'r parc sydd yn y dref ac fe sefydlodd y Royal Literary Society. Disgybl arall iddo yno oedd Morgan John Rhys o'r Graddfa yn Llanbradach a sefydlodd "Y Cylchgrawn Cymreig".


*Capel y Groeswen*

Un arall fu'n gysylltiedig â'r Parchedig David Williams oedd William Edwards, Tŷ Canol. Ef oedd bugail cyntaf yr achos newydd yn y Groeswen, swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth yn 1789. Ond mae'r gŵr hwn, wrth gwrs, yn fwy enwog am adeiladu'r bont enwog ym Mhontypridd.

Mae'n sicr i David Williams gwrdd â phregethwyr enwog anghydffurfiaeth a ymwelodd â'r ardal hon yn ystod ail hanner y ddeunawfed ganrif. Mae H.P. Richards yn ei lyfr yn sôn am John Wesley a George Whitfield yn pregethu o gwmpas Caerffili. Byddent yn aros gyda Thomas Price, Watford Fawr (Plas Watford bellach).

Un o wir arwyr ein bro, ond un gafodd lai na'i haeddiant o glod.

# Colofn y Siaradwyr Newydd

**Ann Lewis**

Beth ydych chi'n ei wybod am y Brenin Arthur? Mae llawer o storïau amdano ond does dim sicrwydd iddo fodoli erioed. Un o'r storïau enwog yw ei fod wedi ei ladd mewn brwydr ac wedyn fe ddaeth cwch a'i gario i Ynys Afallon, gwlad berffaith neu baradwys. Bydd y Brenin Arthur yn byw yno am byth, mewn gwlad heb salwch na gofid na phoen. Dw i'n siwr ein bod ni i gyd yn breuddwydio am fyw mewn gwlad fel Ynys Afallon weithiau a dyna mai T Llew Jones yn ei wneud yn y gerdd hon.

**Ynys Afallon**

Draw ymhell dros donnau'r môr
Mae ynys sy'n baradwys werdd,
Ei gerddi a'i choedlannau'n llawn
O flodau ac o adar cerdd.

Ni hwyliodd llong i'w thraethau hi,
Ni roddodd morwr arni droed,
Ac ni roes gwybodusion byd
Ei henw hi ar fap erioed .

Ond mae hi'n bod, mi wn yn iawn,
A blodau'r lotws yno a dyf,
Ynys Afallon! Lle ni cheir
Na churlaw mawr na chorwynt cryf.


Yno aeth Arthur gynt yng nghwch
Y Tylwyth Teg i wella'i glwy',
I fyw am byth yng ngerddi'r rhos
Ymhell o swn rhyfeloedd mwy.

Pan fyddaf innau'n teimlo'n flin
Ac yn wangalon ambell waith,
Mi fydda i'n rigio sgwner dal
A mynd i'r ynys deg ar daith.

*dim sicrwydd : no certainty bodoli : exist wedi ei ladd : killed brwydr : battle Ynys Afallon: the Isle of Avalon paradwys : paradise gofid : worry, grief breuddwydio: dream coedlannau : woodlands morwr : sailor gwybodusion byd : the knowledgeable people of the world blodau'r lotws : lotus flowers curlaw : torrential rain clwy(f) : a wound yng ngerddi'r rhos : in the rose gardens rhyfeloedd : wars gwangalon : disheartened rigio : to rig sgwner : a schooner*

# Dewch i Ddarllen

Dyma'r nofel ddiweddaraf yng nghyfres Myfanwy Alexander am fywyd a gwaith yr Arolygydd Daf Dafis yn ardal Llanfair Caereinion. Fel y nofelau blaenorol **A Oes Heddwas?, Y Pwnc Llosg** ac **Y Plygain Olaf**, mae hon yn ddifyr iawn i'w darllen ac yn llawn hiwmor a ffraethineb. Yn ogystal â'r dirgelwch canolog sydd y tro hwn yn trafod ymdrech i osod bom ar lwybr trên bach cawn fwy o hanes teulu hynod gymhleth Daf Dafis, digwyddiadau a chymeriadau'r gymdogaeth leol glos a rali ffermwyr ifanc.




O ran y dirgelwch canolog, mae'r awdurdodau yn amau mai gwaith terfysgwyr Islamaidd yw'r bom a daw teulu Mwslimaidd lleol o dan amheuaeth. Mae'r awdur yn awyddus i ddangos bod problemau'r byd mawr wedi cyrraedd ei chornel fach hi o Gymru. Fel yn y nofelau blaenorol, ceir cymeriadau lliwgar a chofiadwy, er nad yw pob un efallai yn gwbl gredadwy!

Ann Lewis

Menter Iaith Sir Caerffili

# Digwyddiadau Mai 2023













WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU

# Eisteddfod Ranbarthol Gwent

**Unawd Blwyddyn 5 a 6**
1af Osian Jones, Ysgol y Castell  2ail Dafydd Roberts, Ysgol Trelyn  3ydd Beca Jones, Ysgol y Ffin

**Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 (Dysgwyr)**
1af Ysgol Gynradd Cwm Ifor  2ail Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf

**Cân Actol Blwyddyn 6**
1af Ysgol Gymraeg y Fenni

**Perfformiad Theatrig o Sgript Blwyddyn 6**
1af Ysgol Gymraeg Trelyn

**Cân Actol Blwyddyn 6 (Ysgolion â Hyd at 100 o Blant)**
1af Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

**Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6 (Dysgwyr)**
1af Grace Finch, Ysgol Cwm Ifor  2ail Grace Kelly, Ysgol Cwm Ifor  3ydd Nathan Jones, Cross Ash

**Unawd Blwyddyn 3 a 4**
1af Sara Joseph, Ysgol y Castell  2ail Jamie Lines, Ysgol Panteg  3ydd Gwenno Anthony, Ysgol Bro Allta

**Cyflwyno Alaw Werin Unigol Blwyddyn 6**
1af Sara Joseph, Ysgol y Castell  2ail Dewi Rowlands, Ysgol y Castell  3ydd Beca Jones, Ysgol y Ffin

**Deuawd Blwyddyn 6**
1af Eben ac Isabel, Ysgol y Fenni  2ail Cody a Hermione, Ysgol Cwmbrân  3ydd Dewi ac Osian, Ysgol y Castell

**Côr Blwyddyn 6 ac iau (Ysgolion â Hyd at 100 o Blant)**
1af Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

**Côr Blwyddyn 6 ac iau**
1af Côr Ysgol Bro Allta  2ail Côr Ysgol y Castell  3ydd Côr Ysgol y Fenni


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com  02920 862428  07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com  02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones  **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney  **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni  **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

MEHEFIN 10 JUNE 11:00 - 19:00

Mwynhau'r Gymraeg

AM DDIM / FREE

# Ffiliffest

Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

@ CAEAU OWAIN GLYNDWR FIELDS, CAERFFILI



KIZZI CRAWFORD - MORGAN ELWY -
WONDERBRASS - IESTYN JONES A'R BAND -
PAID GOFYN - MELDA LOIS - ALLAN YN Y FAN
MARTYN GERAINT - KITSCH N SYNC -
MEWN CYMERIAD - A MWY / AND MORE

---

STONDINAU / STALLS - BWYD / FOOD - BAR
PERFFORMIADAU / PERFORMANCES -
GWEITHGAREDDAU / ACTIVITIES

Menter Iaith Sir Caerffili

MENTRAU IAITH

H4A Celf ar y Blaen Head4Arts

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

mudiad meithrin

Cyngor Dref Caerffili Caerffili Town Council

CYMRAEG I Blant For Kids

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government